



Jocelyn Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

16 Ebrill 2015

Annwyl Jocelyn,

Diolch i'r Pwyllgor am ei adroddiad ar ei ymchwiliad i Arferion Gorau o ran y Gyllideb Rhan 2 – Cynllunio gweithdrefnau cyllidebol newydd a'u rhoi ar waith.

Mae cryn dipyn o ymgysylltu wedi digwydd drwy gydol yr ymchwiliad hwn; rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am ei waith ac yn falch bod yr argymhellion yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu ein cydweithio. Er mwyn bwrw ymlaen â datblygiadau i'r weithdrefn gyllidebol, bydd yn hanfodol ein bod yn parhau i drafod a chydweithio gyda'r Pwyllgor a Chomisiwn y Cynulliad.

Mae'r argymhellion yn tynnu sylw at rai o'r materion allweddol y mae angen i ni fynd i'r afael â nhw wrth i ni barhau i datblygu'r trefniadau angenrheidiol i roi ein pwerau cyllidol cynyddol ar waith o dan Ddeddf Cymru 2014. Rwy'n derbyn yr argymhellion yn fras ac yn edrych ymlaen at barhau i gydweithio wrth i ni ddatblygu'r manylder y mae ei angen i roi gweithdrefn gyllidebol addas i'r diben ar waith yn llwyddiannus ar gyfer Cymru.

Rwy'n amgáu nodyn yn Atodiad A sy'n ymateb i bob un o'r argymhellion yn yr adroddiad.

Jane Hutt AC / AM
Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
Minister for Finance and Government Business